



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

Teitl y cynnig:

Asesu effaith y penderfyniad i ganiatáu i'r holl ddysgwyr ddychwelyd i ysgolion a lleoliadau ym mis Medi

Adran:

Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Ysgrifennydd y Cabinet/Gweinidog cyfrifol:

Y Gweinidog Addysg

Dyddiad Dechrau:

Mehefin – Awst 2020

Cyfeiriad e-bost cyswllt:

Covid19.LlywodraethiantAddysg@llyw.cymru

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

1. Asesiadau effaith ar gyfer ymateb addysg i Covid-19

Mae pandemig y Coronafeirws (COVID-19) wedi creu sefyllfa na welwyd ei thebyg o'r blaen lle, er mwyn ymateb i'r argyfwng iechyd y cyhoedd a'i liniaru lle y bo modd, bu'n rhaid gwneud penderfyniadau arwyddocaol, cymhleth ac anodd yn aml, a hynny'n aml mewn amser byr iawn.

Mae'r Asesiad Effaith Integredig hwn yn canolbwyntio ar asesu effeithiau caniatáu i'r holl ddysgwyr ddychwelyd i ysgolion a lleoliadau yng Nghymru o fis Medi 2020 ymlaen. Mae hyn yn dilyn y cyfyngiadau cenedlaethol y mis Mawrth a darparu sesiynau 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' o 29 Mehefin ymlaen. Yn sgil materion yn ymwneud â chapasiti, mae'r Asesiad Effaith hwn wedi ei lunio wrth edrych yn ôl, ond mae'n cyfeirio at dystiolaeth ac asesiadau effaith a ystyriwyd gan y Gweinidog a swyddogion polisi cyn [cyhoeddiad 9 Gorffennaf](#), a datblygiad canllawiau ategol, a gyhoeddwyd i ddechrau ar 14 Gorffennaf ac a ddiweddarwyd ar 2 Awst.

Mae'r Asesiad Effaith hwn yn gysylltiedig ag Asesiad Effaith arall yn edrych ar [ymateb addysg cychwynnol](#) a gyhoeddwyd ar 1 Hydref. Mae hefyd yn adeiladu ar yr [Asesiad Effaith a gyhoeddwyd ar 1 Hydref](#) ynghylch sesiynau 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi'.

At ddibenion yr asesiad hwn, mae'r term 'ysgolion a lleoliadau' yn cynnwys ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir yng Nghymru, yn ogystal ag Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Addysg Heblaw yn yr Ysgol. Dylid nodi bod yr asesiad parhaus o'r effeithiau a gwmpesir yn yr asesiad hwn yn cynnwys ystyriaethau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc o oedran ysgol, ni waeth sut na ble mae'r unigolyn yn dysgu.

2. Caniatáu i'r holl ddysgwyr ddychwelyd i ysgolion a lleoliadau o fis Medi 2020

Ers y penderfyniad i gau ysgolion a lleoliadau ym mis Mawrth, mae ein dealltwriaeth o'r feirws a'i effeithiau tymor hwy yn parhau i ddatblygu. Gwyddom y bydd yn rhaid inni fyw gydag effeithiau COVID-19 am beth amser ac mai dyma'n her fwyaf sydd o'n blaenau hyd y gellir rhagweld.

Roedd creu'r cyfle i ddysgwyr 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' yn nhymor yr haf yn rhoi amser cyswllt hanfodol i'r rhan fwyaf o ddysgwyr cyn gwyliau'r haf. Roedd hyn yn cynnig manteision cymdeithasol, addysgiadol ac o ran y bwch cyrhaeddiad yn y tymor byr o ystyried rhai o effeithiau negyddol y cyfyngiadau cenedlaethol ar ddysgwyr (a archwiliwyd yn fanylach yn yr Asesiad Effaith ar yr ymateb addysg cychwynnol). Helpodd y cyfnod hwn hefyd i baratoi dysgwyr ar gyfer amser cyswllt ar ôl gwyliau'r haf a chaniataodd i ysgolion a lleoliadau brofi a mireinio gweithrediadau.

Ar 8 Gorffennaf, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg £29 miliwn ychwanegol i ysgolion i [recriwtio, adfer a chodi safonau](#) i hybu cymorth i ddysgwyr ar adegau tyngedfennol yn eu haddysg o fis Medi ymlaen. Yn ystod yr argyfwng, daeth yn amlwg nad yw llawer o ddysgwyr wedi datblygu cymaint ag y gallent yn eu dysgu, gyda rhai wedi cael eu heffeithio yn fwy difrifol nag eraill. Mae'r cyllid hwn yn galluogi ysgolion a lleoliadau i recriwtio a defnyddio staff ychwanegol i gefnogi dysgwyr i fynd i'r afael â'u hanghenion yn dilyn yr argyfwng COVID-19 cychwynnol a'r cyfnod o gau ysgolion.

Roedd asesiadau effaith a gynhaliwyd yn nhymor yr haf (y cyfeirir atynt uchod) yn allweddol wrth lunio'r rhaglen [recriwtio, adfer a chodi safonau](#) a'r buddsoddiad ariannol sylweddol cysylltiedig mewn cymorth i grwpiau o ddysgwyr wedi'u targedu. Yr asesiadau effaith hynny a ddarparodd y

dadansoddiad i helpu i nodi'r carfannau â blaenoriaeth. Wedi dweud hynny, mae hyblygrwydd yn rhan annatod o'r rhaglen i ganiatáu digon o ymreolaeth i ysgolion a lleoliadau nodi grwpiau neu unigolion y mae angen cymorth arnynt fel rhan o'u cynlluniau ysgol unigol.

Ar 9 Gorffennaf cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddai pob dysgwr yn gallu dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Roedd hyn yn dilyn [argymhelliad](#) gan Grŵp Cynghori Technegol Cymru y gallai ysgolion gynllunio i agor ym mis Medi gyda 100% o ddysgwyr ar y safle, yn amodol ar ostyngiad cyson yn nifer yr achosion o COVID-19.

Fel yr amlinellwyd eisoes, er bod yr Asesiad Effaith hwn wedi'i lunio wrth edrych yn ôl, mae'r ystyriaethau a'r dystiolaeth yn yr Asesiad Effaith hwn yn cynrychioli'r hyn a gyflwynwyd i'r gweinidog ac a helpodd i lywio penderfyniadau i ganiatáu i 100% o ddysgwyr ddychwelyd ym mis Medi. Yn dilyn y cyhoeddiad hwn ar 13 Gorffennaf, cyhoeddwyd canllawiau gweithredol a dysgu, a ddatblygwyd gyda chymorth awdurdodau lleol, penaethiaid, swyddogion iechyd cyhoeddus, undebau athrawon ac ymarferwyr addysg.

Fel y nodwyd yn yr [Asesiad Effaith diwethaf](#), mae'r [Fframwaith penderfyniadau ar gyfer y cam nesaf i addysg a gofal plant: ystyriaethau, cynlluniau a heriau](#) a gyhoeddwyd ar 15 Mai yn amlinellu dull y Gweinidog Addysg o newid gweithrediadau ysgolion a darparwyr eraill dros amser mewn ymateb i COVID-19. Mae'n nodi 5 egwyddor allweddol ar gyfer y sector addysg yn y cam nesaf. Mae'r egwyddorion hyn, ochr yn ochr ag ystyried hawliau plant a dyletswyddau cysylltiedig, yn parhau i bwysu a mesur nifer o ffactorau fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

2.1 Lles dysgwyr a staff

Iechyd a lles dysgwyr a staff fu'r brif egwyddor ar gyfer pob penderfyniad ac mae'r [canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau](#) yn dweud yn glir mai lles staff ddylai fod yn brif ystyriaeth. Mae'n dweud bod angen iddynt ystyried yr effeithiau posibl ar iechyd a lles staff ac arweinwyr, gan gynnwys cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Yn ogystal, er nad yw'n bosibl sicrhau amgylchedd cwbl ddi-risg, mae dadansoddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar farwolaethau cysylltiedig â COVID-19 sy'n gysylltiedig â galwedigaethau yn awgrymu bod staff mewn lleoliadau addysgol yn tueddu i beidio â bod mewn mwy o berygl o'r clefyd na llawer o alwedigaethau eraill. Nid oes dystiolaeth bod plant yn trosglwyddo'r clefyd yn fwy nag oedolion, ond byddwn yn parhau i fonitro cyfraddau canlyniadau profion cadarnhaol mewn plant. Adeg drafftio, roedd nifer isel iawn o brofion cadarnhaol ymhlith gweithwyr addysg, 3.8% yn gronol, gyda'r cyfraddau isaf ymhlith gweithwyr hanfodol.

Tynnwyd ar ystod eang o dystiolaeth i lywio penderfyniadau, a chyfeirir at hyn drwy'r Asesiad Effaith hwn. Mae'n cydnabod yr effeithiau andwyol ar les neu fynediad at ddysgu sy'n deillio o beidio â mynd i'r ysgol. Rhaid cydbwysu risgiau'n ofalus ag effeithiau negyddol bod allan o'r ysgol ar iechyd. Mae ysgolion a lleoliadau hefyd yn bwynt cyswllt pwysig ar gyfer gwasanaethau diogelu ac iechyd y cyhoedd sy'n hanfodol i les plant a theuluoedd.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gosod fformiwla anhyblyg ar gyfer ymatebion ar lefel leol i'r sefyllfa. Mae wedi darparu fframwaith ac arweiniad i ysgolion / lleoliadau, awdurdodau lleol a rhanbarthau eu defnyddio wrth ddatblygu cynlluniau, dulliau ac atebion sydd eu hangen ar eu dysgwyr a'u cymunedau lleol. Mae'r canllawiau'n cydnabod y bydd cyd-destun ysgol neu leoliad yn pennu sut y defnyddir y cyfuniad o fesurau yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo ym mhob lleoliad unigol. I rai, bydd yn fodlon mai dyna fydd y brif flaenoriaeth; i ddysgwyr eraill bydd yn mynd i'r afael ag iechyd a lles emosiynol. Wrth gyflwyno pob dysgwr yn ôl i ysgolion a lleoliadau yn raddol, gofynnwyd i awdurdodau lleol sy'n gweithio

gyda'r staff ystyried sut mae hyn yn effeithio ar les dysgwyr.

Gwyddom fod y risg i blant eu hunain o fynd yn ddifrifol wael o COVID-19 yn isel iawn. Yn ôl y [dystiolaeth gyfredol](#) mae'r haint SARS-CoV-2 yn ysgafnach mewn plant nag mewn oedolion: mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o blant sy'n cael eu heintio yn cael symptomau ysgafn neu'n asymptomatig, ac ychydig iawn sy'n datblygu clefyd difrifol neu sy'n peryglu bywyd. Erys rhywfaint o ansicrwydd o hyd o ran gallu plant i drosglwyddo'r clefyd, ond yn ôl gwaith arsylwi yn y byd go iawn ar ysgolion sydd ar agor mewn awdurdodaethau eraill, ni welwyd fawr ddim trosglwyddo gan blant. Er enghraifft, canfu [adroddiad diweddar](#) gan Asiantaeth Iechyd Cyhoeddus Sweden: "Children are not a major risk group of the COVID-19 disease and seem to play a less important role from the transmission point of view. The negative effects of closing schools must be weighed against the possible positive indirect effects it might have on the mitigation of the COVID-19 pandemic". Yn ogystal, mae system Profi, Olrhain, Diogelu y GIG yn weithredol ac rydym yn glir ynghylch y mesurau sydd eu hangen i greu amgylcheddau mwy diogel mewn ysgolion a lleoliadau.

Cynghorwyd ysgolion a lleoliadau a'u cyflogwyr i adolygu eu hasesiadau risg iechyd a diogelwch yn drylwyr mewn cydweithrediad â'r awdurdod lleol ac undebau llafur, a llunio cynlluniau sy'n mynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd. Mae mesurau hanfodol yn cynnwys ystyriaeth ffurfiol o sut i leihau cysylltiadau a sicrhau'r ymbellhau cymdeithasol a chorfforol mwyaf posibl rhwng y rhai yn yr ysgol lle bynnag y bo modd a lleihau'r potensial ar gyfer heintio cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Bydd hyn yn golygu grwpio dysgwyr a lleihau cysylltiad rhwng gwahanol grwpiau gymaint â phosibl.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi pryder bod COVID-19 yn effeithio'n anghymesur ar bobl o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME), gyda chanlyniadau iechyd uniongyrchol ac anuniongyrchol andwyol o ganlyniad. Cynullodd y Prif Weinidog Grŵp Cynghori BAME COVID-19 i'w gynghori ef a'i Gabinet ar y mater hollbwysig hwn, i nodi mesurau i ddiogelu cymunedau yng Nghymru ac i argymhell gwaith tymor hwy y byddai ei angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Sefydlwyd yr Is-grŵp Economaidd-gymdeithasol yn benodol i nodi'r ystod o ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n dylanwadu ar ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol anffafriol COVID-19 i unigolion o gefndiroedd BAME.

Bydd ysgolion a lleoliadau yn effro i adnabod a chefnogi dysgwyr sy'n arddangos arwyddion o bryder drwy gydol yr hydref. Dylid cynllunio ar gyfer gofal bugeiliol a chymorth profedigaeth a'i roi ar waith. Ceir canllawiau manylach ar gefnogi lles drwy ddysgu yn y canllawiau dysgu. Mae hyn yn annog ymarferwyr i ganolbwyntio ar gefnogi lles dysgwyr fel y sylfaen ar gyfer dysgu, a bod pob dysgwr yn gallu manteisio ar ystod o offer a chymorth ar gyfer eu lles emosiynol a meddyliol yn yr ysgol.

Gan ragweld galwadau cynyddol ar adnoddau iechyd meddwl, darparwyd cyllid ychwanegol i gefnogi iechyd meddwl plant, yn ogystal â'r buddsoddiad a wnaed mewn gwasanaethau cwnsela a chymorth iechyd meddwl dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae dystiolaeth gan sefydliadau fel yr NSPCC yn dweud wrthym fod y cyfyngiadau cenedlaethol wedi arwain at ddysgwyr sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso sy'n anhysbys i'r gwasanaethau plant. Mae hyn yn amlygu'r rôl bwysig y mae ysgolion a lleoliadau fel arfer yn ei chwarae wrth ddatgelu materion diogelu. Yn sgil eu gweithrediadau cynyddol, mae ysgolion a lleoliadau wedi gallu nodi anghenion llesiant, materion diogelu, ac unrhyw faterion hygyrchedd digidol eraill yn well.

2.2 Cyfrannu at yr ymdrech genedlaethol

Fel ei hail egwyddor allweddol yn y fframwaith penderfyniadau, nododd y Gweinidog Addysg fod angen parhau i gyfrannu at yr ymdrech a'r strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â lledaeniad COVID-19.

Mae gwybodaeth am yr ymateb addysg yn seiliedig ar yr ymdrech genedlaethol ledled Cymru ac yn y DU, ac yn ei llywio. Mae swyddogion addysg Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn rhan o ystyriaethau traws lywodraethol mewnol, gan gynnwys drwy: is-grŵp plant ac addysg y Gell Cyngor Technegol; y grŵp adolygu 21 diwrnod; a ffrwd waith diogelu a phlant a phobl ifanc agored i niwed. Rydym hefyd mewn cysylltiad agos â chydweithwyr yn awdurdodaethau addysg eraill y DU, yn ogystal ag adolygu dulliau gweithredu a chanlyniadau awdurdodaethau rhyngwladol eraill yn rheolaidd.

Gan ystyried y sefyllfa well dros yr haf, mae'r cydbwysedd risg yn llethol o blaid dysgwyr yn dychwelyd i'w hysgol neu eu lleoliad. Mae bod y tu allan i'r ysgol neu leoliadau yn niweidiol i ddatblygiad gwybyddol ac academaidd dysgwyr a'u hiechyd a'u lles, yn enwedig i blant sy'n agored i niwed a phlant difreintiedig; a gall gael effaith yn y tymor byr a'r tymor hwy. Gwyddom fod cyflawniad academaidd is hefyd yn trosi'n gostau economaidd hirdymor. Gwyddom hefyd fod cau ysgolion wedi effeithio ar allu rhai teuluoedd i weithio. Mae cael dysgwyr yn ôl i'r ysgol cyn gynted ac mor ddiogel â phosibl yn dod â manteision cadarnhaol mewn nifer o feysydd, yn enwedig eu lles meddyliol ac emosiynol.

2.3 Hyder y bobl dan sylw

Trydedd egwyddor fframwaith penderfyniadau'r Gweinidog Addysg oedd hyder rhieni/gofalwyr, staff a dysgwyr. Nododd mai sail hyder fyddai tystiolaeth a gwybodaeth, at ddiben blaengynllunio. Felly, byddai'r ffordd y gwnaed penderfyniadau, yn ogystal â'r dystiolaeth i ategu penderfyniadau, yn manteisio ar amrywiaeth o arbenigedd a thystiolaeth.

Yn ogystal â'r ystod eang o dystiolaeth y cyfeirir ati drwy'r asesiad hwn, cynhelir trafodaethau rheolaidd â'r grwpiau canlynol er mwyn cytuno ar ddulliau a llywio cyngor ar benderfyniadau:

- Y Gell Cyngor Technegol: is-grŵp plant ac addysg – mae'n cynnwys amrywiaeth o swyddogion Llywodraeth Cymru a chynghorwyr arbenigol i ddarparu tystiolaeth ar y ffactorau a'r goblygiadau gwyddonol ac iechyd.
- Grŵp rhanddeiliaid penaethiaid ac arweinwyr – grŵp cyfeirio yn cynnwys arweinwyr ysgolion a darparwyr eraill o ofal plant i'r brifysgol.
- Grŵp rhanddeiliaid Partneriaid Cyflawni Addysg Strategol – grŵp cyfeirio yn cynnwys awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Estyn, addysg bellach a Cymwysterau Cymru.
- Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol
- Grŵp Cynghori Rhieni
- Partneriaeth Undebau Llafur.
- Fforwm Penaethiaid Colegau Cymru.
- Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Gofal Plant a Chwarae – yn cynnwys cynrychiolaeth o'r sector gofal plant a chwarae, Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn, awdurdodau lleol, Gofal Cymdeithasol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y Comisiynydd Plant a Chomisiynydd y Gymraeg.

Er mwyn casglu barn plant a phobl ifanc, mae'r Gweinidog Addysg mewn cysylltiad â'r Senedd leuenticid, a lansiodd Llywodraeth Cymru yr arolwg ar-lein 'Coronafeirws a fi' mewn partneriaeth â Chomisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru a'r Senedd leuenticid. Darparodd yr arolwg gipolwg ar gyfnod o bythefnos a chasglwyd barn dros 23,700 o blant a phobl ifanc am amrywiaeth o faterion yn ymwneud â'u hiechyd, addysg, bywyd cymdeithasol a'u teimladau drwy argyfwng COVID-19. Mae'r [canlyniadau](#) wedi'u cyhoeddi ar wefan Comisiynydd Plant Cymru.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi amrywiaeth o brofiadau gwahanol ers i'r pandemig ddechrau. Mae rhai dysgwyr wedi dioddef profedigaeth, trallod a phryder. Mae llawer wedi gweld eisiau ffrindiau a theulu, ac yn teimlo eu bod yn colli allan ar eu haddysg. Ar yr un pryd, mae llawer o ddysgwyr wedi dweud eu bod wedi gwerthfawrogi cael treulio mwy o amser gyda'u teuluoedd, gan chwarae ac ymlacio mwy, neu ddysgu mewn ffordd wahanol. Rhoddir rhagor o fanylion yn yr Asesiad Effaith ar Hawliau Plant.

Hefyd, mae'n bwysig trafod â rhieni / gofalwyr er mwyn deall eu profiadau nhw a phrofiadau dysgwyr yn ystod y cyfnod parhaus hwn lle amherir arnynt. Bydd angen cymorth ychwanegol ar lawer, megis dysgwyr sydd mewn profedigaeth, dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig neu rwystrau eraill i ddysgu, a'r rhai â phroblemau iechyd meddwl eisoes. Efallai y bydd dysgwyr gwydn a oedd yn perfformio'n dda cyn y cyfyngiadau symud yn ei chael hi yr un mor anodd yn ystod y cyfnod hwn a bod angen cymorth ychwanegol arnynt o ran eu llesiant a/neu ddysgu wrth dychwelyd.

Mae'n parhau'n hanfodol bod cyfathrebu uniongyrchol ac anuniongyrchol ynglŷn â disgwyliadau dysgwyr a rhieni yn glir ac yn gyson drwy gydol y cyfnod parhaus hwn o darfu ar addysg.

Croesawyd y cyhoeddiad ar ailagor pob dysgwr ym mis Medi gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, sy'n cydnabod, er bod cau ysgolion yn rhan angenrheidiol o reoli'r pandemig, fod effaith peidio â bod yn yr ysgol ar les llawer iawn o blant yn sylweddol.

2.4 Y gallu i flaenoriaethu

Gyda chyflwyno'r sesiynau 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' yn nhymor yr haf 2019/20, dechreuwyd ar broses o liniaru effeithiau'r cyfyngiadau a gyflwynwyd ym mis Mawrth yn sgil y pandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae'n amlwg y bydd pandemig COVID-19 yn parhau i effeithio ar ddysgu ac addysgu yn ystod blwyddyn ysgol 2020/21. Bydd y dulliau gweithredu mewn ysgolion a lleoliadau yn parhau i esblygu i ddarparu dysgu yn yr ysgol ac mewn mannau eraill os bydd angen, ac i liniaru'r rhwystrau y gallai rhai grwpiau dysgwyr eu hwynebu.

Mae ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ochr yn ochr â'n nodau llesiant wedi tynnu sylw at y rôl hanfodol sydd gan ein hysgolion a'n lleoliadau o ran mynd i'r afael ag anghenion pob dysgwr. Ni ellir gadael unrhyw un ar ôl. Serch hynny, dim ond drwy gymorth ychwanegol wedi'i dargedu y gellir gwireddu cyfle cyfartal i rai ag anghenion dysgu a datblygiadol penodol. Mae sicrhau bod ein holl ddysgwyr mewn sefyllfa i ddysgu ac ailymgysylltu â'u haddysg yn ffocws allweddol ar gyfer tymor yr hydref, ac mae sicrhau bod anghenion iechyd a lles dysgwyr yn cael eu diwallu yn hanfodol i wneud i hyn ddigwydd.

Cydnabyddir bod cysylltiad wyneb yn wyneb rhwng dysgwyr ac ysgolion cyn gwyliau'r haf wedi bod yn gymysg. Mae'n sicr y bydd dysgu cyfunol yn parhau i chwarae rhan mewn addysg mewn nifer o ffyrdd. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda phartneriaid fel consortia addysg rhanbarthol ac Estyn i sicrhau bod yr arfer da sy'n bodoli ar draws llawer o ysgolion a lleoliadau yng Nghymru yn parhau i gael ei rannu, gan helpu i lywio gweithrediadau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r £29 miliwn ychwanegol sy'n cael ei ddarparu i gefnogi'r [Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau: y Rhaglen Dysgu Carlam](#) i'w ddefnyddio er mwyn medru helpu dysgwyr i fynd i'r afael â'u hanghenion yn dilyn yr argyfwng COVID-19 cychwynnol a'r cyfnod o gau ysgolion, drwy recriwtio a defnyddio capasiti dynol ychwanegol.

Mae pob dysgwr yn gymwys i gael cymorth ychwanegol pan fydd yn dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, er y bydd cwmpas yr help sydd ei angen yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Bydd y cyllid yn cael ei dargedu at garfannau penodol a nodwyd (gan gynnwys drwy asesiadau effaith cynharach ar addysg) fel y rhai sydd fwyaf mewn perygl fel a ganlyn:

- Dysgwyr sy'n paratoi ar gyfer arholiadau yn y flwyddyn academaidd sydd i ddod (hynny yw'r rhai ym mlynnyddoedd 11, 12 a 13)
- Dysgwyr agored i niwed a difreintiedig, fel y'u diffinnir gan ystod o ddulliau
- Blwyddyn 7, oherwydd yr amharu ar y cyfnod pontio o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd.

Mae'r carfannau penodol hyn yn arwydd o sut y bydd penaethiaid yn meddwl am ddefnyddio cymorth. Er bod y fformiwla ariannu'n seiliedig ar garfannau penodol o ddysgwyr, disgwylir i ddysgwyr y nodir bod angen cymorth arnynt gael y cyfle i ymgysylltu â chymorth lle bo hynny'n bosibl. Felly, nid yw wedi'i neilltuo at ddefnydd y tri grŵp blaenoriaeth a restrir uchod yn unig a gellir ei ddefnyddio i alluogi mynediad at gymorth lle bo angen ar gyfer dysgwyr y mae ystod eang o agweddau ar y pandemig wedi effeithio arnynt. Gan y bydd unigolion nad ydynt yn y 3 grŵp blaenoriaeth rhestredig y mae angen cymorth arnynt hefyd, mae'n egwyddor bwysig bod gan benaethiaid ymreolaeth wrth benderfynu ar unrhyw grwpiau neu unigolion pellach y maent yn eu cefnogi fel rhan o'u cynlluniau ysgol unigol.

Mae [canllawiau atodol](#) hefyd wedi'u cyhoeddi gyda gwybodaeth ychwanegol, y tu hwnt i'r canllawiau gweithredol a dysgu, sy'n benodol i gefnogi grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed ac yn ddifreintiedig yn y flwyddyn academaidd newydd. Bydd hyn yn cefnogi ysgolion a lleoliadau i sicrhau dull cynhwysol wrth iddynt baratoi ar gyfer gweithredu llawn o fis Medi 2020.

Mae'r [canllawiau dysgu](#) yn dweud yn glir y dylai ysgolion a lleoliadau roi sylw arbennig i ddiwallu anghenion y rhai nad ydynt yn gallu mynychu eu hysgol neu eu lleoliad. Os na fydd dysgwr yn gallu mynychu'r ysgol am unrhyw reswm mae'n hanfodol bod yr ysgol yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â'r dysgwr o bell. Dylai ysgolion a lleoliadau gadw cofnod o bresenoldeb a dylai teuluoedd hysbysu eu hysgol ac egluro'r rheswm dros beidio â mynychu er mwyn galluogi'r ysgol i gofnodi presenoldeb yn gywir. Bydd hyn yn helpu ysgolion, lleoliadau ac awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer dysgwyr sy'n dychwelyd i'r ysgol a deall unrhyw rwystrau iddynt, gan nodi unrhyw gymorth pellach sydd ei angen. Bydd yn hanfodol bod pob dysgwr yn ymgysylltu, ac fe ddylai unrhyw bryderon am ymgysylltu, neu les dysgwr, gael eu codi ar unwaith gan yr ysgol neu'r lleoliad. Dim ond ar ôl i'r ysgol wneud pob ymdrech i ymgysylltu â'r teulu y dylid uwchgyfeirio pryderon i'r Gwasanaeth Lles Addysg.

2.5 Bod yn Gyson â fframwaith Llywodraeth Cymru

Wrth ddod i'r penderfyniad i ganiatáu i 100% o ddysgwyr ddychwelyd i ysgolion a lleoliadau ym mis Medi, mae cyngor wedi ystyried fframwaith penderfyniadau Llywodraeth Cymru ac wedi bod yn gyson ag ef.

Er enghraifft, drwy gyhoeddi [canllawiau gweithredol](#) rydym wedi sicrhau bod canllawiau ar waith i gefnogi mesurau fel ymbellhau, rheoli presenoldeb a chamau diogelu ehangach mewn ysgolion a lleoliadau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ehangach a deunyddiau cymorth ar COVID-19 a ddefnyddir fel y bo angen; mae hyn ochr yn ochr â'r wybodaeth wyddonol ac iechyd a ddefnyddir.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi bod cynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau yn flaenoriaeth wrth ystyried yr holl ymateb i reoli'r pandemig.

3. Yr ymateb deddfwriaethol

Wrth ystyried sut i gefnogi'r penderfyniad i ganiatáu i bob dysgwr ddychwelyd i'r ysgol o fis Medi ymlaen, gwnaethom rai addasiadau dros dro i ddeddfwriaeth:

1. Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) (Diwygio)

(Coronafeirws) 2020

Ystyriwyd ei bod yn briodol llacio'r gofyniad i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru o'u dyddiadau tymhorau ar gyfer 2022/23 erbyn y diwrnod gwaith olaf ym mis Rhagfyr 2020 (yn hytrach na'r diwrnod gwaith olaf ym mis Awst 2020). Roedd hyn o ganlyniad i weithrediad cyfyngedig ysgolion yn sgil y pandemig a'r pwysau sylweddol ar awdurdodau lleol, a oedd yn golygu y byddai cydymffurfio â'r terfyn amser gwreiddiol ar 31 Awst yn rhoi baich gweinyddol anghymesur arnynt ar adeg pan fo pwysau sylweddol arnynt eisoes.

2. Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2020

Mae Rheoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009 yn nodi'r weithdrefn y mae'n rhaid i gyrrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol ei dilyn i wneud newidiadau i amserau dechrau a gorffen ysgolion ac amser egwyl. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori, llunio datganiad, cynnal cyfarfod gyda rhieni ac ystyried unrhyw benderfyniad ysgrifenedig. Maent hefyd yn darparu mai dim ond ar ddechrau tymor neu ddechrau blwyddyn ysgol y gall newidiadau o'r fath ddigwydd (yn dibynnu ar y cynnig). Mae'r hysbysiad yn datgymhwyso dros dro reoliadau 3 a 4 o Reoliadau Newid Amserau Sesiynau Ysgolion (Cymru) 2009, er mwyn gallu newid amserau sesiynau ysgol heb fod angen ymgynghori na rhoi hysbysiad. Dim ar gyfer newidiadau i amserau sesiynau oherwydd y coronafeirws y mae'r datgymhwyso dros dro hwn yn berthnasol ac ni fydd unrhyw newidiadau a wneir tra bo'r hysbysiad yn cael effaith yn barhaol. Mae'r hysbysiad hwn wedi'i gyflwyno deirgwaith, yn cwmpasu'r cyfnodau ar ddiwedd tymor yr haf 2019/20 a Medi a Hydref tymor yr hydref 2020/21. Caiff yr hysbysiadau eu hadolygu a'u hystyried i'w hailgyhoeddi bob mis.

3. Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

Bydd ysgolion a agorodd am wythnos ychwanegol yn 2019/20 yn cau am gyfnod estynedig o wyliau hanner tymor yr hydref yn 2021/20, sy'n golygu na fyddant yn gallu cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Addysg (Y Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol) (Cymru) 2003 sy'n nodi sawl sesiwn y mae'n rhaid i ysgol eu cyflwyno mewn unrhyw flwyddyn benodol. Yn ogystal, er mwyn helpu i baratoi i dderbyn pob dysgwyr yn ôl yn yr ysgol, gall ysgolion gymryd hyd at ddau ddiwrnod ar ddechrau blwyddyn academaidd 2020/21 fel diwrnodau cynllunio a pharatoi. I bob pwrpas, mae hyn yn golygu bod yr ysgolion bedair sesiwn yn brin o'r gofyniad. Bwriad y diwygiad untro hwn i'r Rheoliadau yw helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i gynyddu eu gweithrediadau heb dorri eu gofynion statudol mewn perthynas â nifer y sesiynau a gyflwynir.

4. Y cam nesaf

Wrth symud ymlaen â'n hymateb i'r argyfwng iechyd y cyhoedd, rydym yn parhau i gadw mewn cof effeithiau cymdeithasol, datblygiadol a llesiant cyfnodau estynedig lle amherir ar addysg. Serch hynny, mae'n debygol yr amherir ar addysg mewn ysgolion a lleoliadau am beth amser. Felly, mae amrywiaeth o gamau wedi'u rhoi ar waith i fonitro'r effeithiau sy'n gysylltiedig â'r tarfu parhaus ar ddysgu ac i lywio'r broses o wneud penderfyniadau wrth symud ymlaen.

Comisiynwyd ymchwil i ddeall y goblygiadau tymor hwy a sut y gallwn fynd i'r afael â hwy, gan ystyried sut y gellir cynnwys dysgwyr yn y broses. Yr ydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid megis Estyn, awdurdodau lleol, consortia addysg rhanbarthol ac undebau llafur i ddeall goblygiadau'r dulliau dysgu cyfunol. Rydym hefyd yn defnyddio profiad o'r tu allan i Gymru i lywio ein dulliau gweithredu.

Mae dulliau cyfathrebu aml-sianel yn parhau i gael eu defnyddio i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, fod y rhai sy'n ymwneud â gweithrediadau cynyddol mewn ysgolion a lleoliadau yn gallu cael gafael ar y wybodaeth gywir, a bod y disgwyliadau'n glir.

Mae ystod o drefniadau ymgysylltu amser real ar waith neu'n cael eu hystyried i gasglu adborth

ar effaith y polisïau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys adroddiadau gwrandio dyddiol ar gyfryngau cymdeithasol a chrynodebau dyddiol o faterion allweddol sy'n dod drwy ohebiaeth ac ymholiadau i'n canolfan gswllt gyntaf, yn ogystal ag arolygon pellach o rieni a dysgwyr.

Mae gwaith craffu parhaus y Senedd ar ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig COVID-19 yn cynnwys [galwad agored am dystiolaeth](#) gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Mae cyhoeddi gwybodaeth ddilynol yn darparu ffynhonnell i helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau a chamau gweithredu.

Diwygio'r cwricwlwm yw ein prif flaenoriaeth o hyd ar gyfer addysg yng Nghymru. O ganlyniad, mae [Recriwtio](#), [Adfer a Chodi Safonau: y Rhaglen Dysgu Carlam](#) yn canolbwyntio ar y canlynol:

- llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol o fewn cwricwlwm eang a chytbwys – ar gyfer y blynyddoedd arholi, bydd hyn yn cynnwys uwch sgiliau darllen ac ysgrifennu, mathemateg lefel uchel lle bo hynny'n berthnasol, a chymhwysedd digidol ar y lefel briodol ac fel sy'n berthnasol i ddysgwyr sy'n symud ymlaen gyda'u cymwysterau
- datblygu sgiliau dysgu annibynnol, galluogi a chymell dysgwyr ym mhob grŵp i wneud cynnydd carlam drwy weithio'n fwy effeithiol ar eu pen eu hunain a'r tu allan i'r ysgol
- cymorth ac ymgysylltiad drwy hyfforddi – hyn i gydnabod y bydd angen hyfforddiant a chymorth emosiynol ar y dysgwyr sydd wedi ymddieithrio fwyaf yn ogystal â sgiliau a chymorth i baratoi ar gyfer arholiadau.

Mae darparu swm mor fawr o arian ychwanegol yn golygu bod rhaid i ni sicrhau bod yr adnoddau'n cael eu defnyddio'n dda ac yn cael yr effaith ofynnol. Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol:

- sicrhau bod ysgolion yn nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud gyda'r adnoddau mewn cynllun syml a chlir
- nodi nifer y dysgwyr sydd wedi'u cynnwys ac amlinellid o'r cwricwlwm ac atebion staffio a gynigir
- cytuno ar gynlluniau gyda Chynghorydd Her yr ysgol (yn achos ysgolion sydd wedi'u dynodi ar hyn o bryd fel rhai sydd angen lefelau coch ac ambr o gymorth gan eu consortia addysgol rhanbarthol)
- cael corff llywodraethu'r ysgol i lofnodi'r cynllun a sicrhau bod manylion dull gweithredu'r ysgol ar gael i rieni a'r gymuned ehangach.

Bydd y wybodaeth hon, ynghyd â gwybodaeth a ddarperir gan gonsortia rhanbarthol, yn cael ei defnyddio i fonitro defnydd ac effaith y cyllid ychwanegol.

Mae'r Aseiad Effaith hwn yn cael ei adolygu'n barhaus a bydd yn debygol o gael ei ddiweddarau eto, yn enwedig wrth i effaith penderfyniadau polisi ddod yn gliriach, pan fydd tystiolaeth newydd ar gael, neu pan fo polisïau'n cael eu hadolygu a'u haddasu. Er bod effaith penderfyniadau wedi'i hasesu cyn belled ag y bo modd, mae'r sefyllfa o ran y pandemig COVID-19 a phenderfyniadau cysylltiedig yn parhau'n ddigynsail. Efallai y bydd canlyniadau anfwriadol yn cael eu nodi'n ddiweddarach.

Casgliad

1. Sut mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae diogelwch a llesiant meddyliol, emosiynol a chorfforol dysgwyr a staff wedi cael ei nodi fel egwyddor allweddol gyntaf penderfyniadau ynghylch y cam nesaf hwn o'r ymateb addysg i bandemig COVID-19. Felly, mae cynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau yn cynnwys proses barhaus o ymgysylltu ag ymarferwyr a dysgwyr, yn ogystal ag ystod eang o bartïon â diddordeb. Mae ysgolion a lleoliadau, yn ôl eu natur, yn cael effaith eang ar gymdeithas. Mae'r broses hon yn cynnwys ymgysylltu â'r canlynol:

- **plant a phobl ifanc** – yn uniongyrchol drwy'r arolwg, '[Coronafeirws a fi](#)' ond hefyd yn anuniongyrchol drwy ymgysylltu â grwpiau rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr a all rannu profiadau dysgwyr
- **ymarferwyr addysg** – yn uniongyrchol drwy grwpiau cynghori cyfeirio rhanddeiliaid a rhwydweithiau anffurfiol a ddatblygwyd drwy'r broses o ddiwygio addysg dros y blynyddoedd diwethaf, ond hefyd yn anuniongyrchol drwy ymgysylltu ag awdurdodau lleol, Estyn, Consortia Rhanbarthol ac undebau llafur a all rannu profiadau ymarferwyr
- **rhieni/gofalwyr** – yn uniongyrchol drwy sefydlu a defnyddio Grŵp Cynghorol y Rhieni (gan gynnwys dadansoddi canfyddiadau arolwg y grŵp ynghylch y fframwaith penderfyniadau), yn ogystal â gwaith dadansoddi mwy anuniongyrchol arolygon ehangach o rieni (megis arolwg ParentKind) a gohebiaeth/ymholiadau a gyflwynir i'r ganolfan pwynt cyswllt cyntaf.
- **rhanddeiliaid addysg**, megis awdurdodau lleol, Estyn, consortia rhanbarthol, undebau llafur ac eraill.

Mae'n bwysig adeiladu ar y gwaith ymgysylltu uniongyrchol hwn, yn enwedig gyda dysgwyr a rhieni/gofalwyr, a sicrhau ei fod yn parhau dros y misoedd nesaf, gyda dulliau yn cael eu rhoi ar waith i brofi syniadau a nodi eu profiadau wrth i ni symud ymlaen drwy'r flwyddyn academaidd.

Dylai'r rhai sy'n cynrychioli hawliau plant gymryd rhan uniongyrchol yn y grwpiau rhanddeiliaid ymateb pandemig.

2. Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

O ran sicrhau tegwch i bawb yn seiliedig ar hawliau drwy roi cyfle i'r holl ddysgwyr ddychwelyd i'r ysgol neu leoliad o fis Medi ymlaen, nid yw'r effeithiau uniongyrchol yn hysbys eto gan nad yw darpariaeth o'r fath yn dechrau tan 29 Mehefin. Fodd bynnag, gwnaed rhai dyfarniadau, wedi'u llywio gan dystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau:

- Mae rhai dysgwyr wedi rhannu **profiadau** cadarnhaol yn sgil y cyfyngiadau parhaus ar addysg (megis treulio mwy o amser gyda'u teulu, treulio amser yn yr awyr agored a dysgu sgiliau newydd). Fodd bynnag, efallai fod rhai dysgwyr wedi datblygu pryder neu faterion iechyd meddwl eraill o ganlyniad i effeithiau COVID-19. Yn ogystal, mae COVID-19 yn debygol o fod wedi cynyddu neu waethygu pryder sy'n bodoli eisoes a materion iechyd meddwl eraill. Gall dysgwyr agored i niwed a difreintiedig sy'n profi pryder neu faterion iechyd meddwl eraill fod yn amharod i ddychwelyd, neu ddod yn fwyfwy pryderus

ynghylch dychwelyd, i'w hysgol neu eu lleoliad o ganlyniad i amharu ar eu presenoldeb. Yn gyffredinol, fodd bynnag, rydym yn rhagweld na fydd profiadau dysgwyr a staff yn wych o'u cymharu â chyn y pandemig, mewn addysg arferol. Bydd cyfnod parhaus o ansicrwydd gyda'r potensial ar gyfer cyfyngiadau lleol pellach. Bydd hyn ynddo'i hun yn debygol o beri heriau i mewn i dymor yr hydref, yn enwedig wrth i gymhelliant dysgwyr amrywio. Cydnabyddir y bydd y profiadau gwahanol y bydd dysgwyr wedi eu cael gartref, a gyda'u teuluoedd, yn chwarae rhan fawr wrth hwyluso'r broses o fynychu'r ysgol neu eu lleoliad yn rhannol.

- Mae'r **dull o sicrhau tegwch i bawb** yn seiliedig ar hawliau yn bwysig oherwydd bydd angen cefnogaeth uniongyrchol barhaus ar bob dysgwr gan ysgolion a lleoliadau. Gallai peidio â chael hynny olygu na fydd rhai yn dysgu, a hynny'n sylweddol. Fodd bynnag, mae darparu cymorth uniongyrchol i bawb yn golygu y gellid cyfyngu ar amser gyda'r rhai mwyaf anghenus – a dyna'r rheswm dros gyflwyno a thargedu cymorth ychwanegol drwy'r rhaglen Recriwtio, Cadw a Chodi Safonau. Serch hynny, efallai na fydd pob dysgwr yn cael yr hyn sydd ei angen arnynt ar unwaith o'r amser cyswllt sydd ar gael o fis Medi ymlaen – gall hyn gymryd amser i fynd i'r afael ag ef mewn amgylchiadau penodol. Fodd bynnag, mae'r hyn a wneir yn gam i'r cyfeiriad cywir, ac o fudd wrth barhau i sicrhau hawliau plant. Rhaid cydnabod na fydd y profiad dysgu mor gadarnhaol â'r hyn oedd ar gael cyn COVID-19, a hynny am beth amser. Hefyd, cydnabyddir nad yw'r egwyddor o ran tegwch yn gyfystyr â chyfle cyfartal na darpariaeth gyfartal, heb roi mesurau ychwanegol ar waith ac ystyried anghenion a dysgwyr penodol.
- Mae'r pwyslais a roddir ar **iechyd a llesiant** dysgwyr a staff yn hanfodol wrth sicrhau hawliau plant. Bydd dychwelyd i ysgolion a lleoliadau yn hwyluso gwell dadansoddiad o'r anghenion, gan esgor, er enghraifft, ar fuddiannau i'r rhai ag AAA, neu sy'n wynebu materion diogelu, neu sydd â phroblemau mynediad digidol parhaus. Disgwyliwr rhai gwelliannau o ran cymhelliant dysgwyr i ddysgu wrth iddynt weld staff yr ysgol wyneb yn wyneb eto, er y bydd yn her cynnal hyn drwy'r hydref. Mae'r dull polisi hefyd yn ymateb i'r dyhead i ymgysylltu â staff a chyd-fyfyrwyr eto, sydd wedi'i fynegi gan blant a phobl ifanc drwy arolygon. Mae pethau penodol i'w hystyried wrth sicrhau mynediad i'r rhai ag AAA, ac er ei bod yn fwy heriol mynd i'r afael â hyn pan fo cyfnod posibl o gyfyngiadau lleol, rhaid nodi anghenion unigol a mynd i'r afael â nhw.
- Bydd y dulliau o **ddysgu** a'r graddau y mae myfyrwyr wedi **mynd ati i ddysgu** wedi amrywio'n sylweddol yng Nghymru. Bydd dychwelyd i'r ysgol a lleoliadau yn rhoi mwy o gyfle i weithwyr addysg proffesiynol asesu anghenion a dechrau eu diwallu. Awgryma tystiolaeth, o dan rai amodau, y gall dysgu cyfunol fod yr un mor effeithiol â bod yn yr ystafell ddosbarth yn llawn amser, ond bydd yn cymryd amser i ddatblygu dulliau dysgu cyfunol i'r lefel honno. Rhaid cydnabod na fydd hyn byth yn effeithiol i rai dysgwyr. Bydd yn hanfodol cynnal momentwm, cynnig cymorth eang, a pharhau i ddadansoddi cynnydd, ar gyfer dysgu cyfunol yn arbennig.
- Disgwyliwn weld mwy o effeithiau ar **ddysgwyr dan anfantais** yn sgil y cyfyngiadau symud, gan gynnwys colli dysgu. Bydd rhai dysgwyr angen tawelwch meddwl am ddychwelyd i'r ysgol neu leoliad yn sgil pryderon iechyd cysylltiedig â COVID-19, yn ogystal â'r rhai y bydd angen sicrwydd a/neu gymorth arnynt i ddychwelyd i'r ysgol am eu bod wedi'u datgysylltu oddi wrth eu haddysg. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried y cynnydd nodedig mewn cymorth Prydau Ysgol am Ddim yn ystod tymor yr haf (37% yn

fwy na mis Ionawr). Bydd angen i ysgolion a lleoliadau gynllunio eu darpariaeth yn ofalus, gan gynnwys y cymorth Recriwtio, Adfer a Chodi Safonau.

- Mae potensial i weld mwy o **ymddygiad heriol** ymhlith dysgwyr, yn enwedig y rhai a oedd yn ei chael yn anodd ymgysylltu ag addysg cyn COVID-19. Efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd addasu i'r newid yn y drefn arferol, gan gynnwys y drefn a'r disgwyliadau mwy strwythuredig mewn perthynas â dysgu ac ymddygiad, ar ôl dychwelyd i addysg. Yn benodol, mae'r ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol yn amrywiol ac mae'n cynnwys addysg academaidd a galwedigaethol. Cyflwynodd COVID-19 heriau sylweddol i rai mathau o leoliadau addysg heblaw yn yr ysgol i ddarparu adnoddau i ddysgwyr ddysgu o'u cartref oherwydd natur ymarferol eu haddysg. Byddai awdurdodau lleol wedi wynebu heriau sylweddol o ran dod o hyd i leoliadau addysg amgen i ddysgwyr yn ystod y cyfnod o Covid ac mae'n debygol y bydd amharu wedi bod ar addysg y dysgwyr hyn.
- Daw'r effeithiau ar ddatblygu'r **Gymraeg** yn gliriach wrth i ysgolion a lleoliadau allu asesu cynnydd dysgwyr yn well. Tynnir sylw at effeithiau posibl ar ddarpariaeth trochi Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar, yn ogystal â mynediad i ddysgu ehangach drwy gyfrwng y Gymraeg. Un maes y bydd angen ei ystyried fel rhan o hyn yw cynyddu'r cymorth sydd ar gael i rieni, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn siarad Cymraeg. Hefyd, gall fod materion penodol yn codi o ran cael cludiant i'r rhai sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan effeithio ar eu gallu i fynychu eu hysgol cyn yr haf. Mae angen canllawiau pellach ar ysgolion a lleoliadau ynghylch dysgu'r Gymraeg, a chanllawiau ar wahân ar ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg i ysgolion a lleoliadau, ar gyfer yr hydref.
- Bydd yr amharu parhaus ar ysgolion a lleoliadau yn parhau i gael effaith gymedrol i sylweddol ar allu **rhieni** i weithio a/neu gyfrannu at eu cymunedau. Bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, gan fod llawer yn ceisio cydbwyso gwaith a chyfrifoldebau gofalu, a bydd cyflogwyr yn disgwyl pethau gwahanol ganddynt. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae mesurau cadw pellter cymdeithasol wedi cyfyngu ar fynediad i rwydweithiau gofal anffurfiol. Mae'n debygol o fod yn anodd i rai teuluoedd ymdopi â dysgu cyfunol, lle treulir amser yn yr ysgol neu mewn lleoliadau a gartref.
- Mae angen parhau i **gyfathrebu** â dysgwyr, yn ogystal â rhieni/gofalwyr, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol (drwy ysgolion, lleoliadau a rhanddeiliaid addysg eraill), ac mae angen i hynny fod yn broses ddwyffordd. Mae llawer o ddysgwyr yn ddigon abl i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dysgu a/neu ddylanwadu ar benderfyniadau rhieni. Dylent gael y cyfle i lywio'r hyn sy'n digwydd nesaf yn uniongyrchol, nid dim ond ymateb i benderfyniadau. Mae angen i bob un ohonynt gael gwybod am bwysigrwydd cadw'n ddiogel a mynd ati i ddysgu. Hefyd, mae angen meithrin gwell dealltwriaeth o ddisgwyliadau, ac na fydd addysg yn dychwelyd i normal am beth amser.

3. Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,

- yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Bydd caniatáu i 100% o'r disgyblion ddychwelyd i ysgolion a lleoliadau yn gam mawr tuag at fynd i'r afael ag effeithiau'r amharu ar addysg yn sgil pandemig COVID-19. Fodd bynnag, bydd mwy o amharu yn anochel wrth inni barhau i fyw gyda'r feirws. Mae'r fframwaith penderfyniadau a nodwyd yn gynharach yn tynnu sylw at y pwyslais ar roddir ar y pum egwyddor allweddol ar gyfer y cam nesaf hwn ar weithrediadau, gyda phob un ohonynt yn ymwneud â'r nodau llesiant.

- Mae **diogelwch a llesiant meddyliol, emosiynol a chorfforol** dysgwyr a staff mewn ysgolion a lleoliadau wedi cael ei nodi fel un o'r prif egwyddorion sy'n sail i unrhyw benderfyniadau am gynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau. Rhoddwyd canllawiau manwl i ysgolion a lleoliadau ar y ffordd y gellir mynd ati i sicrhau bod addysg yn ddiogel i bawb. Mae'r canllawiau hefyd wedi pwysleisio'r angen i flaenoriaethu llesiant dysgwyr fel un o ofynion rhagorffodol dysgu. Parheir i adolygu'r canllawiau hyn a byddant yn cael eu diweddarau.
- Nod **gweithredu ar sail hawliau er mwyn sicrhau tegwch i bawb** wrth gynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau i bob dysgwr (a all fynychu) yw lliniaru rhai o effeithiau negyddol y cyfyngiadau symud. Dylai helpu dysgwyr o bob oed o ran eu llesiant a'u hanghenion dysgu. Mae canllawiau i ysgolion a lleoliadau yn caniatáu iddynt wneud penderfyniadau ynghylch pa ddysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol/penodol.
- Gall ysgolion a lleoliadau fod yn **ganolbwynt mewn cymunedau**. Mae'r mesurau cadw pellter cymdeithasol yn cyfyngu ar hyn. Fodd bynnag, wrth i ysgolion a lleoliadau ailagor i'r holl ddysgwyr ym mis Medi, disgwylir i hyn wella cydlyniant cymunedol fwyfwy wrth i fwy o bobl allu cyfarfod o amgylch yr ysgol neu'r lleoliad (gan gadw pellter cymdeithasol ar yr un pryd) a dal i fyny, a chynnig cyngor a chymorth.
- Disgwylir dechrau lliniaru effeithiau'r cyfyngiadau symud ar bobl, busnesau a chymunedau (a wnaeth olygu nad oedd modd cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau diwylliannol a chelfyddydol, chwaraeon na hamdden) ar **lesiant diwylliannol** fwyfwy wrth i ddysgwyr dreulio mwy o amser mewn ysgolion a lleoliadau yn dysgu ac yn cael cymorth o fis Medi ymlaen. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod, gall fod effaith sylweddol ar y Gymraeg o hyd o ganlyniad i amharu parhaus ar addysg. Mae'r canllawiau'n glir y bydd angen monitro'r materion sy'n ymwneud â dysgu'r Gymraeg, a dysgu drwy'r Gymraeg, gydag ymchwil parhaus, tystiolaeth a chymorth gweithredu yn y dyfodol. O ystyried yr effeithiau a archwiliwyd uchod, fodd bynnag, rhagwelir y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai dysgwyr gyda'r Gymraeg o dymor yr hydref.

Mae'r cydberthnasau gwaith agos â rhanddeiliaid addysg Cymru a rhyngddynt, sydd wedi datblygu ymhellach drwy waith ar ddiwygiadau addysg *Cenhadaeth ein Cenedl*, wedi darparu sail gadarn i weithredu ar garlam a fu'n angenrheidiol dros y misoedd diwethaf. Byddant yn parhau'n hanfodol wrth inni symud i mewn i'r cam nesaf hwn ar gynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau.

Mae'r ymateb cadarnhaol a gafwyd gan ymarferwyr ledled Cymru wrth gefnogi anghenion ein plant a'n pobl ifanc wedi ei gydnabod yn llawn; mae hyn hefyd yn wir am gynnal trefniadau cydweithio ar garlam ag asiantaethau a grwpiau â diddordeb allweddol. Wrth symud ymlaen, bydd angen inni barhau i ystyried sut y gallwn gefnogi capasiti'r sector addysg i ymateb i'r gofynion parhaus sy'n deillio o'r argyfwng iechyd hwn, yn arbennig wrth i'r galwadau ar weithwyr addysg proffesiynol gynyddu'n sylweddol wrth i fwy o ddysgwyr ddychwelyd i'r ysgol neu

leoliadau mewn amgylchedd o COVID-19.

4. Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?

Mae'r asesiad sy'n cwmpasu'r [ymateb addysg cychwynnol](#) i COVID-19, a gyhoeddwyd ar 1 Hydref, yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y trefniadau sydd ar waith i fonitro a gwerthuso'r ymateb addysg i'r pandemig. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i gasglu, dadansoddi a darparu gwybodaeth am yr effeithiau iechyd a'r effeithiau ehangach sy'n deillio o bandemig COVID-19.

Yn ogystal â'r dulliau eang hynny, bydd angen gwybodaeth benodol, adborth a phroses adolygu barhaus o ran:

- profiadau dysgwyr o 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi' a'u barn am ddatblygu dulliau dysgu cyfunol yn yr hydref
- barn rhieni/gofalwyr am y trefniadau ar gyfer cynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau (gan gynnwys llesiant, dysgu a materion logistaidd/cludiant)
- tystiolaeth o effeithiau COVID-19 ar bobl BAME, a sut y dylai'r canllawiau i ysgolion a lleoliadau gael eu diwygio'n briodol
- y gwersi a ddysgwyd yn sgil dysgu o bell dros y misoedd diwethaf, a sut y gellir adeiladu ar hynny drwy ddull dysgu cyfunol i mewn i'r hydref
- yr ymgysylltu a'r heriau wrth ddatblygu'r broses o ddysgu'r Gymraeg, a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
- cymryd rhan mewn sesiynau 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi', gan ystyried yn benodol ddiwallu anghenion dysgwyr dan anfantais, a'r rhai sy'n wynebu mwy o risg o ganlyniad i COVID-19 na allant fynychu sesiynau cyswllt
- sut mae anghenion penodol y rhai ag AAA yn cael eu nodi a'u diwallu pan fo amharu parhaus ar addysg
- sut mae anghenion penodol dysgwyr addysg heblaw yn yr ysgol yn cael eu nodi a'u diwallu pan fo amharu parhaus ar addysg.

Ar y cyd â'r hyn a nodir yn yr asesiad ar yr ymateb addysg cychwynnol, ategir y sail dystiolaeth gan wybodaeth a ddaw o gyswllt rheolaidd ag adrannau addysg eraill y DU, yn ogystal â gwybodaeth a dadansoddiadau rheolaidd am ddulliau sy'n cael eu defnyddio mewn ymateb i COVID-19 mewn awdurdodaethau addysg eraill yn rhyngwladol. Gyda'i gilydd, bydd y sail dystiolaeth hon yn ein galluogi i adolygu a diwygio polisiau, er mwyn nodi bylchau pellach mewn tystiolaeth ac ystyried camau lliniaru pellach sydd eu hangen ar gyfer y rhai sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf. Felly, bydd yr asesiad hwn yn parhau i fod yn ddogfen 'fyw' ac fe'i hadolygir yn barhaus ac fe'i diweddarir yn rheolaidd wrth i effaith syniadau a phenderfyniadau ynghylch cynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau gael ei hasesu i mewn i'r hydref.